# Fforwm Symudedd Diwylliannol 2024

# Caernarfon ac ar-lein

**DYDD IAU 25 EBRILL A DYDD GWENER 26 EBRILL 2024**

Bydd y drydedd Fforwm flynyddol yn cael ei threfnu gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, un o aelodau On the Move, ac yn cael ei ffrydio'n fyw gan HowlRound.

## Pam Fforwm Symudedd Diwylliannol?

On the Move yw'r rhwydwaith gwybodaeth rhyngwladol sydd wedi ymroi i symudedd artistig a diwylliannol. Ar hyn o bryd, mae ganddo 73 o aelodau mewn 27 o wledydd. Wedi'i gyd-ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd, nod On the Move yw helpu pob rhanddeiliad yn y maes symudedd i ymateb yn well i elfennau cyd-ddibynnol a heriau byd-eang, gan gynnwys rhai cymdeithasol. Fel rhan o'i raglen aml-flwyddyn, bob blwyddyn bydd On the Move yn trefnu Fforwm Symudedd Diwylliannol er mwyn edrych ar y cyd ar y tueddiadau rhyngwladol mewn symudedd artistig a diwylliannol. A hwnnw'n blatfform gwybodaeth unigryw, mae'r rhwydwaith yn gweithio gyda'i aelodau a phartneriaid i drefnu trafodaethau panel thematig ac i roi cyd-destun i faterion sy'n ymwneud â symudedd byd-eang a materion sy'n cael sylw ym Mlwyddlyfr Symudedd Diwylliannol blynyddol On the Move.

## Ffocws 2024: Symudedd diwylliannol y tu hwnt i ryngwladoli

Nod Fforwm Symudedd Diwylliannol 2024 yw dychmygu gorwelion newydd ar gyfer rhaglenni datblygu proffesiynol sydd â dimensiwn rhyngwladol.

Wrth sôn am 'raglenni datblygu proffesiynol', rydyn ni'n golygu cyfres o weithgareddau (fel cyrsiau hyfforddiant i unigolion neu grwpiau, dosbarthiadau meistr, sesiynau hyfforddi a mentora, neu gyfleoedd i ddilyn prentisiaethau creadigol). Bydd y rheini'n galluogi artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol i wella'u hymarfer a buddsoddi mewn sgiliau a fydd yn eu helpu i greu llwybr proffesiynol cynaliadwy iddyn nhw'u hunain.

Mae'r dimensiwn rhyngwladol yn hollbwysig i ddyfodol artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol, ac mae'n cyfoethogi eu gyrfaoedd neu strategaethau eu sefydliadau. Bydd rhaglenni datblygu proffesiynol rhyngwladol yn annog pobl i fyfyrio, a thrwy wneud hynny gall artistiaid a gweithwyr diwylliannol proffesiynol ddadansoddi eu profiadau, eu sefyllfaoedd a'u gweithredoedd eu hunain. Gallan nhw hefyd ddadansoddi'r dolenni rhyng-gysylltiedig yn y gadwyn werthoedd ddiwylliannol a chymhlethdod cysylltiadau rhyngwladol sydd wedi'u seilio ar werthoedd.

Serch hynny, mae rhaglenni rhyngwladoli wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu busnes. Er gwaethaf 'dadrithiad cyffredinol globaleiddio' (Boon: 2021), mae'r rhan fwyaf o raglenni yn dal i awgrymu y dylai cyfranogwyr ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd er mwyn cyrraedd marchnadoedd dramor.

Bydd nifer o eiriau allweddol yn ymddangos dro ar ôl tro yn nisgrifiadau rhaglenni – marchnata,

Co-funded by the European Union



Gyda chefnogaeth BRITISH COUNCIL

strategaethau ac adnoddau, brandio a chyfathrebu, cynnig syniadau ac arddangos, marchnadoedd rhyngwladol, ac ati. Bydd nifer o gynlluniau yn y maes diwylliant yn mynd ati'n unswydd i ddatblygu cyfleoedd i allforio ac i weithio dramor (Floch: 2022).

O fewn y duedd hon, gwelwn wrthdaro paradocsaidd rhwng disgwyliadau. Ar y naill law, bydd rhyngwladoli yn dod yn fath o alwad ar weithwyr creadigol: yn rhywbeth sy'n angenrheidiol i oroesi; i greu ffynonellau incwm mwy amrywiol; i achub ar gyfleoedd yn y meysydd hyfforddiant, cyfnodau preswyl a chynhyrchu; neu i gael cydnabyddiaeth nad yw'n bodoli yn eu hecosystem leol. Ar y llaw arall, erbyn hyn, nid yw teithio er mwyn cael bri neu i ddangos chwilfrydedd didwyll mewn diwylliannau eraill yn cael ei ystyried yn rheswm digon dilys dros fod ag uchelgeisiau rhyngwladol, a hynny wrth i faterion llosg eraill sy'n ymwneud â gweithredu hinsawdd, tegwch mewn cysylltiadau rhyngwladol, neu lesiant frigo i'r wyneb mewn nifer o gymunedau (Boon: 2021).

O ganlyniad, bydd y Fforwm yn trafod materion o bwys: Sut i ystyried y gofod 'rhyngwladol' fel gofod i archwilio ffurfiau amrywiol o feithrin gwybodaeth a chyd-ddealltwriaeth? Sut y gall artistiaid a gweithwyr diwylliannol ffurfio'u cymhellion a'u huchelgeisiau rhyngwladol mewn byd sy'n wynebu argyfyngau mewn cynifer o feysydd? Sut i ymwneud â chydweithfeydd diwylliannol trawsffiniol hirdymor, a'r rheini o fudd i'r ddwy ochr, yn gytbwys, yn dangos parch, ac yn llesol o ran eu heffaith hirdymor? Pwy sy'n cael elwa o raglenni meithrin capasiti, a phwy sy'n cael ei adael ar ôl? Sut i feithrin ffurfiau tecach a mwy hygyrch o gydweithio rhyngwladol? Sut y gall prosiectau trawswladol helpu i gysylltu artistiaid rhyngwladol â chymunedau lleol mewn ffordd ystyrlon?

# Yr amserlen

Ffrydio byw @ HowlRound, https://howlround.com/upcoming-livestreams
Amseroedd Prydain yw'r holl amseroedd a ddangosir. Ewch i weld eich parth amser cyfatebol chi gan ddefnyddio https://www.piliapp.com/time-now/converter.
Mae dolenni i gofrestru ar gael fan hyn (ar waelod y dudalen).

DYDD IAU 25 EBRILL 2024

**14:00–18:00** **Fforwm Symudedd Diwylliannol (rhan I)**
Theatr, Galeri Caernarfon, Doc Fictoria, Caernarfon [gwefan / map]

14:00 Cyfranogwyr i ddechrau cofrestru

14:30–15:00 **Gair o groeso a chyflwyniad**
Prif araith: **Maggie Russell,** Cadeirydd | Cyngor Celfyddydau Cymru (Y Deyrnas Unedig)

15:00–16:15 **Trafodaeth banel: 'Datblygu proffesiynol rhyngwladol: mannau gadael, mannau cyrraedd'**
Llywydd: **Milica Ilić,** ymgynghorydd rhyngwladol | llawrydd (Gwlad Belg)
Panelwyr: **Ouafa Belgacem,** Prif Weithredwr | Culture Funding Watch (Tunisia)
**Tamar Janashia,** Sylfaenydd a Chyfarwyddwr | Culture and Management Lab

(Georgia) 16:15–16:45 Egwyl baned

16:45–18:00 **Trafodaeth banel: 'Rhoi gwerth ar gydweithio diwylliannol rhyngwladol'**
Llywydd: **Anna Galas-Kosil,** Rheolwr Prosiectau Artistig ac Ymchwil a Churadur | Arsyllfa Diwylliant Warsaw(Gwlad Pwyl)
Panelwyr: **Laura Ganza,** Rheolwr Rhaglenni | Africalia (Gwlad Belg)
**Sarah Philp,** Dirprwy Gyfarwyddwr | Delfina Foundation (Prydain)

18:00–18:15 **Pethau difyr o'r diwrnod**
Adroddwr: **Yohann Floch,** Cyfarwyddwr Gweithrediadau | On the Move

**DYDD GWENER 26 EBRILL 2024**

| | |
|---|---|
| 9:30–12:30 | **Fforwm Symudedd Diwylliannol (rhan II)**<br>Theatr, Galeri Caernarfon, Doc Fictoria, Caernarfon [gwefan / map] |
| 9:00 | Cyfranogwyr i ddechrau cofrestru 9:30– |
| 9:45 | **Gair o groeso a chyflwyniad** |
| 9:45–11:00 | **Trafodaeth banel: 'Rhyngwladoli o'r cyrion'** |
| Llywydd: | **Katelijn Verstraete,** Ymgynghorydd Diwylliannol \| ReflAction Works (Singapore) |
| Panelwyr: | **Marwane Fachane,** Rheolwr-Gyfarwyddwr \| Hiba Foundation (Morocco)<br>**Kim-Marie Spence,** Darlithydd, Rheoli Celfyddydol a Pholisi Diwylliannol \| Prifysgol Queen's Belfast (Y Deyrnas Unedig) |
| 11:00–11:30 | Egwyl baned |
| 11:30–12:45 | **Trafodaeth banel: 'Cydweithio yn rhyngwladol yn y dyfodol: sgiliau'r dyfodol a safonau'r dyfodol'** |
| Llywyddion: | **Giuliana Ciancio a Carlotta Garlanda**, Rheolwyr Prosiectau **\|** Liv.in.g (Yr Eidal) |
| Panelwyr: | **Nike Jonah,** Cyfarwyddwr Gweithredol \| Pan-African Creative Exchange (Prydain Fawr-De Affrica)<br>**Vânia Rodrigues,** Prif Ymchwilydd \| GREENARTS ac Athro Cynorthwyol Gwadd \| Cyfadran y Celfyddydau a'r Dyniaethau Prifysgol Coimbra (Portiwgal) |
| 12:45–13:00 | **Pethau difyr a safbwyntiau o'r diwrnod** |
| Adroddwr: | **Yohann Floch,** Cyfarwyddwr Gweithrediadau \| On the Move |

Co-funded by
the European Union



Gyda chefnogaeth
BRITISH COUNCIL